# HYSBYSIAD ADNEWYDDU DYDDIEDIG 12 MEDI 2024: ITV WALES CYMRU

YNG NGHYSWLLT Y DRWYDDED (C3000009) A DDYFARNWYD I WALES AND WEST GROUP LIMITED AC A DROSGLWYDDWYD I ITV BROADCASTING LIMITED (“Y TRWYDDEDAI”) AR 5 TACHWEDD 2008, I DDARPARU GWASANAETH CHANNEL 3 RHANBARTHOL I GYMRU O DAN RAN 1 O DDEDDF DARLLEDU 1990 (FEL Y'I DIWYGIWYD) A RHAN 3 O DDEDDF CYFATHREBIADAU 2003 A DYDDIEDIG 17 RHAGFYR 2004, FEL Y'I DIWYGIWYD GAN AMRYWIAD RHIF 19 DYDDIEDIG 23 RHAGFYR 2020 (“Y DRWYDDED”)

**LLE BO'R**

A. Trwyddedai wedi gwneud cais i Ofcom dyddiedig 26 Ebrill 2023 yn unol ag adran 216 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i adnewyddu ei Drwydded.
B. Mae Ofcom wedi penderfynu adnewyddu’r Drwydded ac wedi hysbysu’r Trwyddedai o’i benderfyniad. Mae Ofcom wedi pennu swm y Taliad Adnewyddu ac wedi pennu’r Refeniw Cymwys a fydd yn daladwy gan y Trwyddedai yn lle’r taliadau y mae’n ofynnol eu gwneud yn unol ag Amod 5 y Drwydded yn ystod y cyfnod y mae’r Drwydded i’w hadnewyddu.
C. Mae Ofcom wedi hysbysu’r Trwyddedai o’i benderfyniad am swm y Taliad Adnewyddu a chanran y Refeniw Cymwys.
D. Mae’r Trwyddedai wedi ysgrifennu at Ofcom ar 19 Mawrth 2024 yn datgan ei fod yn cydsynio i adnewyddu’r Drwydded ar y telerau hyn.

**NAWR FELLY**

Mae Ofcom drwy hyn yn rhoi hysbysiad i’r Trwyddedai y bydd y Drwydded yn cael ei hadnewyddu o 1 Ionawr 2025 ymlaen, ac yn amodol ar yr Amodau a nodir yn yr Atodlen a’r Atodiad i’r Drwydded, bydd y Drwydded sy’n cael ei hadnewyddu felly yn parhau am gyfnod o ddeng mlynedd o 1 Ionawr 2025 ymlaen.

Bydd yr Hysbysiad Adnewyddu hwn yn cael ei ddehongli fel pe bai’n rhan o’r Drwydded a bydd yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr. Bydd y termau sydd ynddo â’r un ystyr ag yn y Drwydded oni nodir fel arall neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**LLOFNODWYD AR GYFER OFCOM AC AR RAN OFCOM AR 12 MEDI 2024**



**Vikki Cook**

**Cyfarwyddwr Polisi Darlledu a'r Cyfryngau**